



## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y Bartneriaeth Awyr Agored

### Cofnodion

25 Medi 2026 – 10:15yb – 10:40yb drwy Teams

#### Yn bresennol:

|                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Ymddiriedolwyr</b>        | Stuart Wallace (Cadeirydd), Paul Airey (Ymddiriedolwr Gweithrediadau a Rheoli Risg), Paul Frost (Ymddiriedolwr Llywodraethu), Katy Woodington (Aelod Cyfetholedig), Leah Watkins (Ymddiriedolwr Adnoddau Dynol), Jo Owen (Ymddiriedolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant).                                                                                                                                                                                               |
| <b>Tîm staff</b>             | Tracey Evans (Prif Weithredwr), Mark Jones (Rheolwr Rhaglen), Mali Quaeck (Cydlunydd Busnes), Elin Humphreys (Rheolwr Cyllid), Gary Donaldson (Swyddog Y Sperrins), Victoria Kelly (Swyddog De-ddwyrain Gogledd Iwerddon), Ailish Roberts (Swyddog Gogledd Cymru), Sioned Johnstone (Swyddog Gorllewin Cymru), Bethan Logan (Swyddog Canolbarth Cymru), Brett Mahoney (Swyddog Gwent), Leila Connolly (Swyddog Canolbarth De Cymru), Molly Champion (Swyddog Arfordir Cumbria). |
| <b>Aelodau rhanddeiliaid</b> | Mynychodd cyfanswm o <b>25</b> o randdeiliaid y cyfarfod, gan gynrychioli pob ardal weithredu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |

### 1. Croeso

Diolchodd SW i bawb am gymryd rhan yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a chroesawodd bawb i'r hyn a oedd bellach yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB).

Roedd copïau o'r holl adroddiadau a'r gwaith papur perthnasol ar gael cyn y cyfarfod ar wefan Y Bartneriaeth Awyr Agored: [CCB & CCA 2026 - The Outdoor Partnership](#)

### 2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Ymddiriedolwyr canlynol – Joan Edwards (Cyllid), Margaret Hollings (Masnachol a Marchnata), Peter Olivier (Arsyllwr).

Nodwyd ymddiheuriadau hefyd gan y rhanddeiliaid canlynol:

- Edel Trainor
- Robin Thompson
- Nicky Wilson
- Niall Sheridan
- Michelle Thomas
- Caroline Jones



- Jake Cosgrove
- Suzanne Williams
- Fiona Nicholls
- Mari A Jones
- Sarah McCoubrey
- Megan Parker

### **3. Cofnodion y CCB diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y CCB diwethaf fel cofnod gwir a chywir; fe'u cynigiwyd gan PF a'u heilio gan PA.

### **4. Materion yn codi**

Doedd dim materion i'w godi.

### **5. Adroddiad y Cadeirydd**

Roedd Adroddiad y Cadeirydd ar gael ymlaen llaw ar wefan Y Bartneriaeth Awyr Agored. Tynnodd y Cadeirydd sylw at ffocws parhaus y sefydliad ar sicrhau mynediad teg at weithgareddau awyr agored i bawb ac ar ddylanwadu ar newid systemau i gefnogi'r uchelgais hwn. Nodwyd bod 6,375 o bobl wedi elwa o raglenni'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ystod y flwyddyn, gyda 147 o glybiau wedi cael cymorth ar draws 13 rhanbarth, gan greu cyfleoedd i fwy na 7,000 o bobl o bob oed. Ailddatganodd y Cadeirydd bwysigrwydd cynnal cysylltiad agos â'r gwaith o gyflwyno rhaglenni drwy ymgysylltu'n rheolaidd â'r Swyddogion Datblygu. Adroddwyd am flwyddyn lwyddiannus arall, ynghyd ag uchelgeisiau parhaus i ddylanwadu'n genedlaethol a rhannu dysgu ledled Cymru a'r DU.

Cofnododd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Prif Weithredwr, y tîm rheoli, y tîm staff ehangach, y gwirfoddolwyr, y partneriaid a'r cefnogwyr am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau drwy gydol y flwyddyn.

### **6. Ymddiswyddiad ac Ethol Ymddiriedolwyr**

Adroddodd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi adolygu ei strwythur ac wedi cytuno i gynyddu uchafswm nifer yr ymddiriedolwyr o wyth i ddeuddeg, gan roi mwy o hyblygrwydd ar gyfer penodiadau yn y dyfodol. Yn dilyn ymddeoliad a phenodiad ymddiriedolwyr, byddai'r Bwrdd yn cynnwys naw aelod. Roedd un portffolio yn parhau'n wag; fodd bynnag, roedd y Bwrdd wedi cytuno i oedi recriwtio pellach tra oedd yr aelodaeth bresennol yn ymsefydlu.



Nododd TE nad oedd unrhyw enwebiadau gan aelodau ar gyfer rôl Ymddiriedolwr wedi dod i law.

Rhoddodd TE drosolwg byr o'r Ymddiriedolwyr a oedd yn sefyll i'w hethol a'u hail-ethol, gan gynnwys eu cefndir proffesiynol a'r sgiliau a'r cymwyseddau y maent yn eu cynnig i'r Bwrdd.

Cynigiodd y Bwrdd yr ymgeiswyr i'w hethol a'u hail-ethol, a gofynnwyd am eilyddion o blith y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

#### **Penderfyniad:**

- Ymddeolodd Paul Frost o'r Bwrdd ar ôl cwblhau ei drydydd tymor yn y swydd.
- Roedd Margaret Hollings wedi cwblhau ei thymor cyntaf yn y swydd ac wedi cynnig ei hun i'w hail-ethol. Cynigiodd PF ei bod yn cael ei hail-ethol, ac eiliwyd hyn gan William White.
- Cynigiwyd ethol Katy Woodington i'r Bwrdd. Eiliwyd ei henwebiad gan Kelley Rushton.
- Cynigiwyd ethol Peter Olivier i'r Bwrdd. Eiliwyd ei enwebiad gan William White.

### **7. Ethol Cadeirydd**

Cadarnhaodd SW ei fod yn fodlon parhau fel Cadeirydd, a gofynnodd TE am gynigydd ac eilydd o blith y rhai yn y cyfarfod.

**Penderfyniad:** Cynigiodd Kelley Rushton SW yn Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan PA. Yn dilyn hynny, penodwyd SW yn Gadeirydd y Bwrdd am y flwyddyn nesaf.

### **8. Adroddiad ariannol a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol yn amodol ar Archwiliad**

Dosbarthwyd y cyfrifon blynyddol cyn y CCB. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch y cyfrifon.

**Penderfyniad:** Cynigiodd William White gymeradwyo'r cyfrifon, ac eiliwyd y cynnig gan PF. Cymeradwywyd y cyfrifon yn unfrydol, yn amodol ar archwiliad.

### **9. Penodi'r Archwilwyr a Chymeradwyo Eu Tâl**

Cynigiodd TE y dylid ailbenodi Williams Denton fel archwilwyr yr elusen am gyfnod pellach o flwyddyn.

**Penderfyniad:** Eiliwyd y cynnig gan KW a chymeradwywyd ef gan JE.

Penderfynwyd yn unfrydol ailbenodi Williams Denton yn archwilwyr yr elusen ar gyfer



blwyddyn ariannol 2027-2028, a chymeradwywyd eu tâl yn unol â'r trefniadau presennol.

## **10. Unrhyw Fater Arall**

Nododd SW fod PF wedi mynychu ei gyfarfod Bwrdd olaf yn ddiweddar, ac mai hwn hefyd oedd ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol olaf fel aelod o'r Bwrdd. Mae PF wedi bod yn ymwneud â'r Bartneriaeth ers ei sefydliad, wedi gwasanaethu fel Cadeirydd yn y gorffennol, ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad a threfniadau llywodraethu'r sefydliad.

Bydd PF yn parhau i gefnogi'r sefydliad yn rhinwedd ei rôl fel llysgennad, ac mae'r sefydliad yn disgwyl manteisio ar ei brofiad a'i arbenigedd yn y dyfodol. Cydnabu TE hefyd weledigaeth, arweinyddiaeth, cyfeillgarwch a mentora PF dros gyfnod o fwy nag ugain mlynedd.

## **11. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Nesaf**

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf y sefydliad ym mis Medi 2027, gyda'r dyddiad penodol i'w gadarnhau yn nes at yr amser.

Daeth SW â'r cyfarfod i ben yn ffurfiol drwy ddiolch i'r holl ymddiriedolwyr, aelodau'r tîm staff a'r rhanddeiliaid, heb gefnogaeth a chyfraniad pwyr na fyddai'r elusen yn gallu cyflawni ei hamcanion a'i nodau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:40yb.**